# TREGARTH COMMUNITY CENTRE

England & Wales · Charity number 513351

## Details

| | |
|---|---|
| **Other names** | Y GANOLFAN |
| **Status** | Registered |
| **Legal form** | Other |
| **Registered** | 1982-12-10 |
| **Register** | View on the Charity Commission register |

## Contact

| | |
|---|---|
| **Address** | Canolfan Gymunedol Tregarth<br>Tanrhiw Road<br>Tregarth<br>Bangor<br>Gwynedd<br>LL57 4AW |
| **Phone** | 01248602487 |
| **Email** | canolfantregarth@gmail.com |
| **Website** | www.canolfantregarth.net |

## Activities

**Objects:** UPON TRUST FOR THE PURPOSES OF A COMMUNITY CENTRE FOR THE USE OF THE INHABITANTS OF THE VILLAGE OF TREGARTH AND FOR THE INHABITANTS OF THE COMMUNITY OF LLANDEGAI IN THE COUNTY OF GWYNEDD WITHOUT DISTINCTION OF POLITICAL RELIGIOUS OR OTHER OPINIONS INCLUDING USE FOR MEETINGS, LECTURES AND CLASSES AND FOR OTHER FORMS OF RECREATION AND IMPROVING THE CONDITIONS OF LIFE FOR THE SAID INHABITANTS.

**Activities:** Provide a meeting place for the inhabitants of the village of Tregarth to hold activities of social, cultural and sporting nature without distinction of political, religious or other opinions.

Downloaded from opencharities.uk/ew/513351

## Classification

- **How:** Provides Human Resources, Provides Buildings/facilities/open Space
- **What:** General Charitable Purposes, Education/training, Religious Activities, Arts/culture/heritage/science, Amateur Sport, Economic/community Development/employment
- **Who:** Children/young People, Elderly/old People, Other Charities Or Voluntary Bodies, The General Public/mankind

## Geography

- **Area of benefit:** VILLAGE OF TREGARTH,COMMUNITY OF LLANDEGAI
- Gwynedd

## Finances

| Period end | Income | Expenditure | Assets | Employees |
|---|---|---|---|---|
| 2025-03-31 | £27,257 | £26,143 | - | - |
| 2024-03-31 | £16,433 | £13,733 | - | - |
| 2023-03-31 | £6,571 | £11,467 | - | - |
| 2022-03-31 | £4,319 | £11,235 | - | - |
| 2021-03-31 | £13,677 | £4,834 | - | - |

## Trustees

| Name | Role | Appointed |
|---|---|---|
| ANGHARAD WILLIAMS | | |
| DAFYDD OWEN | | |
| Dominique Jean-Jacques Kervegant | | 2017-01-18 |
| Huw Peredur Jones | | 2020-11-25 |
| Sharon Roberts | | 2018-07-14 |

Downloaded from opencharities.uk/ew/513351

# Accounts

# Gair gan yr Ysgrifennydd

## 26 Tachwedd 2025

Un waith eto, mi fu’r flwyddyn 2025 (BA 2024-2025) yn brysur iawn wrth i’r pwyllgor ymwneud â chynlluniau i wella’r adeilad a rhedeg yr adeilad. Mi fu'r cyfnod rhwng Ionawr 2021 ac eleni yn allweddol pan aeth Pwyllgor y Ganolfan a Chylch Meithrin Tregarth ati gyda'i gilydd i wella cyflwr yr adeilad (gweler adroddiad DK/Tachwedd 2024).

Ni fu Pwyllgor Canolfan Tregarth yn llwyddiannus yn ei gais am grant ar ddiwedd y flwyddyn (cynllun insiwleiddio gwrthsain). Wedi dweud hynny, mae'na gynllun yn ei le petasai gynnig am grant ar gyfer cyfalaf (nid refeniw) ar gael. Mae'r ffenestr amser ar gyfer cyflwyno ceisiadau am grant yn fyr iawn fel rheol - rhwystr mawr wrth ddrafftio ffurflenni cais.

Y dasg fwyaf pwysig ar ddechrau'r flwyddyn 2025 oedd diogelu arian cyfrifon buddsoddiadau - roedd hyn yn destun pryder mawr iawn i bawb, yn ogystal â chyn aelodau'r Pwyllgor, erbyn diwedd y flwyddyn 2024. Wrth lwc, ac ar ôl cysylltu yn uniongyrchol (DK/DO/SR) gydag un o swyddogion cangen HSBC Bangor, am nifer o wythnosau ym mis Ionawr a Chwefror, llwydwyd i ddiogelu'r arian i gyd. Mewn byd sydd yn dibynnu ar systemau a thechnoleg fodern, mae'r profiad trafferthus hwn wedi bod yn wers bwysig am y ffordd ymlaen i redeg y Ganolfan: cael system yn ei lle, trefnu mandadau yn ofalus iawn gyda'r banc (angen derbyn cynnig [motion]) ar gyfer aelodau newydd, cofrestru aelodau ar systemau'r Comisiwn Elusennau ac ati.

Er gwaetha'r ffaith nad ydyn wedi llwyddo i ariannu cynlluniau gyda grant, mae'r Ganolfan wedi llwyddo i symud ymlaen yn sylweddol yn 2025 diolch i ddau gynnig yn bennaf:

[1] Cynllun gosod paneli haul a batris diolch i bartneriaeth gyda'r cwmni Ynni Ogwen. Mae'r cynllun hwn wedi bod yn ddidrafferth i ddweud y gwir. Mi gafodd y gwaith ei wneud yn chwarter cyntaf 2025, ar ôl sefydlu cytundeb rhwng y gwahanol bartneriaid: Pwyllgor Canolfan Tregarth (rhedeg y Ganolfan o ddydd i ddydd), Cyngor Cymuned Llandygai (tenant), Cyngor Gwynedd (perchennog).

Canolfan Gymunedol Tregarth
Tregarth Community Centre
Ffordd Tanrhiw - Tanrhiw Road
LL57 4AW
GWYNEDD
Rhif Elusen: 513351

# Gair gan yr Ysgrifennydd

Mae Pwyllgor Canolfan Tregarth wedi arwyddo cytundeb ar gyfer gwerthiant trydan i Gwmni Ynni Ogwen. Rydym ni ar fin arwyddo cytundeb/trwydded gyda'r gwahanol bartneriaid (gweler uchod). Mae'n amlwg bod y system yn cynhyrchu llawer o drydan yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf - mae'n gofyn i ni ystyried biliau ein cyflenwr yn ofalus yn ystod y misoedd oerach.

Ar y llaw arall, mi wnaethom ni lwyddo i newid cyflenwr trydan a nwy ar gyfer y Ganolfan. Mae'r broses o symud o Scottish Power i Octopus ar ddechrau 2025 wedi bod yn rhyddhad yn dilyn trafferthion cyfathrebu diddiwedd rhwng y Ganolfan a SP. Mae "SmartMeter" wedi ei osod hefyd.

[2] Yr ail gynllun oedd creu Murlun Mawr ar un o waliau'r Canolfan diolch i gynnig gan Bartneriaeth Ogwen, Ysgol Tregarth a Chyngor Gwynedd. Mae presenoldeb yr artist am wythnosau wedi bod yn ysbrydoliaeth i lawer. Aeth y Pwyllgor ati i gynhyrchu 100 myg dathlu'r murlun - mae'r rhan fwyaf wedi eu gwerthu erbyn hyn.

Mae dau ddigwyddiad wedi rhoi cyfle i arddangos Canolfan Tregarth ar ei gorau. Digwyddodd hynny wrth i ni gynnal gŵyl dathlu'r Murlun Mawr mewn partneriaeth gydag Ysgol Tregarth a Phartneriaeth Ogwen (dathliad agored i bawb/cyfle i werthu mygiau/cyfle i ddiolch yr artist) ar y cyntaf o Fai.

Yr ail ddigwyddiad cyhoeddus, llwyddiannus iawn, oedd dathliad 50 mlynedd y Cylch Meithrin ar y 19eg o Orffennaf.

Unwaith eto, cynhalodd Ysgolion Tregarth a Bodfeurig eu mabolgampau ar y cae cyferbyn a'r Ganolfan (defnyddio'r adeilad) yn yr haf - diwrnod hynod o lwyddiannus. Mi wnaeth y Pwyllgor trafod y posibilrwydd o gynnal sioeau Nadolig yn y Ganolfan ym mis Medi - roedd yr ysgol wedi cytuno, cyn tynnu'n ôl ym mis Hydref. Serch hynny, mae'r posibilrwydd dal yna ar gyfer y dyfodol. Mae'r math hwn o bartneriaeth yn golygu ein bod ni'n mynd ati i ddatrys problemau sain yn y Neuadd Fawr.

I gryno ein rhestr o gynlluniau, mae angen ystyried: cynllun inswleiddio gwrthsain ar gyfer y Neuadd Fawr, cynllun gosod camerâu CCTV (trafodaeth yn mynd ymlaen gyda chwmni Jones and Whitehead), gwella diogelwch rhag tân, gwella ein cyfleusterau (toiledau yn enwedig).

Canolfan Gymunedol Tregarth
Tregarth Community Centre
Ffordd Tanrhiw - Tanrhiw Road
LL57 4AW
GWYNEDD
Rhif Elusen: 513351

# Gair gan yr Ysgrifennydd

Erbyn hyn mae arwyddion taclus wedi eu gosod ar y drysau i gyd.
Mae gwaith adeiladu silffoedd wedi ei gynnal ar ddiwedd y flwyddyn wrth i ni golli darn o'r storfa wnaeth y Cylch Meithrin ei defnyddio ar gyfer creu'r swyddfa newydd roedden nhw wir angen. Bydd y Pwyllgor yn mynd ati i geisio trefnu pethau'n fwy effeithiol (cadeiriau a byrddau yn enwedig).

Mae unrhyw waith yn y Ganolfan yn gallu bod yn drafferth i'n prif ddefnyddiwr sef Cylch Meithrin Tregarth. Ers dechrau Medi 2025 mae protocol newydd yn ei le ar gyfer diogelu mynediad i ardal y Cylch yn y bore, hynny ar gyfer gweithwyr allanol, ac aelodau'r Pwyllgor.

Ers i ni dderbyn grant Mantell Gwynedd yn 2023/2024 mae'r Pwyllgor yn rhoi mwy o sylw i atyniad (defnydd o'r adeilad) a chyhoeddusrwydd yr adeilad. Dyma ddwy agwedd sydd angen cadw mewn golwg yn ein gwaith o ddydd i ddydd ar gyfer y flwyddyn newydd sydd ar fin ein cyrraedd, a'r dyfodol.

Mae'n sialens fach ceisio cryno digwyddiadau blwyddyn mewn ychydig o eiriau. Ni fedraf gwtogi ar y geiriau angenrheidiol i ddiolch aelodau'r Pwyllgor, ein Cadeirydd Dafydd, ein Trysorydd Sharon, ein Swyddog Llogi Angharad, Huw - heb anghofio Marian, ein glanhawraig - wrth iddynt hwy ymwneud â'r gwaith gofal, â'r tasgau angenrheidiol i gynnal Canolfan pentref Tregarth. Mae Ysgrifennydd angen yr help mae pawb yn ei rhoi iddo fo. Roedden ni ar fin groesawu aelod newydd ar ddiwedd y flwyddyn hon, mae help ychwanegol yn rhywbeth i gadw mewn golwg er mwyn rhannu'r baich yn well, gwella ein gweledigaeth o systemau a gwneud pethau'n fwy effeithiol.

DK (26 Tachwedd 2025)

# U. F. A.

CANOLFAN TREGARTH – CYFFREDINOL

CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 05/04/2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mewn llaw (banc) 06/04/2024 | £ 5834.22 | | |
| Arian parod | £ 44.02 | | |
| | | | |
| Cyfanswm | | | £ 5878.24 |

DERBYNIADAU

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llogi | £ 7540.00 | | |
| Codi arian | £ 0.00 | | |
| Grantiau a rhoddion | £ 4894.00 | | |
| Llog y banc | £ 25.70 | | |
| Ad-daliad Scottish Power | £ 654.01 | | |
| Talu arian y bocs pres | £ 230.00 | | |
| Buddsoddiad HSBC | £13913.74 | | |
| | | | |
| Cyfanswm | | | £27257.45 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm mawr | | | £33135.69 |

TALIADAU

| | | | |
|---|---|---|---|
| Trydan a nwy | £ 4069.62 | | |
| Dwr | £ 264.24 | | |
| Glanhau | £ 4022.50 | | |
| Adeilad a thrwsio | £15830.67 | | |
| Fandaliaeth | £ 0.00 | | |
| Yswiriant a tan | £ 707.31 | | |
| Ffon | £ 452.06 | | |
| Amrywiol | £ 732.29 | | |
| Costa banc | £ 64.92 | | |
| | | | |
| Cyfanswm | | | £26143.61 |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arian yn y banc 05/04/25 | £ 6948.06 | | |
| Arian parod | £ 44.02 | | |
| | | | |
| Cyfanswm | | | £ 6992.08 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| CYFANSWM MAWR | | | £33135.69 |
| | | | |

Archwilwyd a chafwyd yn gywir – Miss Jean Catley (retired bank clerk) Jean Catley

**DERDYNIADAU**

| | |
|---|---|
| Scottish power | £654.01 |
| Kung Fu | £234.00 |
| D & F (trwy DK) | £40.00 |
| T Bitherll | £ 500.00 |
| Mudiad Meithrin | £ 375.00 |
| Dawes | £300.00 |
| Fiona Jones | £477.00 |
| Puppy classes | £660.00 |
| Margaret Williams | £120.00 |
| Cylch Meithrin | £3384.00 |
| Batala | £ 900.00 |
| Menthyg byrdda | £100.00 |
| Cyngor Gwynedd | £ 300.00 |
| Elusen Ogwen | £ 3000.00 |
| Cyngor Cymuned Da | £ 850.00 |
| HSBC arian | £13913.74 money market |
| Llog y banc | £ 25.70 |
| Mantell | £744.00 |
| Arian o'r bocs pres (llogi) | £230.00 |
| Llogi sieciau x 2 | £450.00 |
| | |
| **CYFANSWM** | £27257.45 |

**TALIADAU- ADEILAD A THRWSIO**

| | |
|---|---|
| Jones & Whitehead | £1107.60 |
| Nottingham | £514.07 |
| ~~Gwyndaf Williams~~ Hughes. | £1179.60 |
| Cormac | £5168.40 |
| Huw Saer | £4686.00 |
| Hewitt | £475.00 |
| Perkins chairs | £2700.00 |
| | |
| **CYFANSWM** | £15830.67 |

| | |
|---|---|
| Amrywiol – clo, goriadau, ink, toiletries etc | £732.29 |